



Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri Ffestiniog & Welsh Highland Railways

Gorsafyr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF

☎ 01766 516000 📠 01766 516006

enquiries@ffwhr.com

ARWEINYDD CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS A CHYFATHREBU:

Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri'n recriwtio...

Amdanom Ni

Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, y cwmni rheilffordd hynaf yn y byd sy'n parhau i redeg trenau, yn ymestyn am 40 milltir drwy harddwch Parc Cenedlaethol Eryri. Rydym wedi bod yn edrych ar ôl ein teithwyr am fwy na 150 o flynyddoedd, gan gynnig iddynt y profiad gorau posibl. Rydym yn un o'r atyniadau ymwelwyr blaenaf yng Ngogledd Cymru ac rydym hefyd yn falch o'n statws fel gweithdy "Treftadaeth" arloesol o safon uchel. Gyda chyfnod cyffrous o'n blaenau wrth i'n poblogrwydd barhau i dyfu, rydym yn eich gwahodd chi i ddod yn rhan o'r profiad hwn ac i ymuno â'n tîm...

Y Swydd

Rydym yn chwilio am Arweinydd Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu gyda gwybodaeth dda o gyfathrebu ym meysydd ffordd o fyw cwsmeriaid a thwristiaeth a'r gallu i gyfleu nodweddion technegol diddorol i dargedu cyhoeddiadau a phlatfformau cyfryngol ar gyfer selogion rheilffyrdd.

Fel yr Arweinydd Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, byddwch yn adrodd wrth y Rheolwr Masnachol ac yn cydweithio'n agos â'r Tîm Gwerthiant a Marchnata i hyrwyddo busnes craidd a gwasanaethau ein rheilffyrdd treftadaeth aml-safle.

Byddwch yn gweithio yn ein swyddfeydd ym Mhorthmadog lle gallwch rannu syniadau a datblygu eich gwybodaeth gyda gweithwyr marchnata proffesiynol hyderus o'r un anian mewn amgylchedd bywiog a llawn hwyl.

Byddwch yn cynorthwyo'r Tîm Masnachol i roi'r Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus ar waith ar bob platfform cyfryngol i gyrraedd ein grwpiau targed presennol a rhai newydd, gan lunio deunydd ar gyfer digwyddiadau, ymgyrchoedd a chyhoeddiadau masnachol a ffordd

o fyw a rhai ar gyfer selogion. Byddwch hefyd yn gweithio gyda phenaethiaid adrannau i ddatblygu a chydlynu eu holl ofynion cysylltiadau cyhoeddus ar-lein ac all-lein.

Mae cyfathrebu mewnol yn rhan bwysig o'n Strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, a chyda dros fil o wirfoddolwyr/aelodau a thros gant o aelodau staff, rydym yn dibynnu ar ddeunydd a gwybodaeth y byddant hwy'n eu darparu i lywio ein cyfathrebu mewnol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ganddynt.

Mae gennym fel cwmni dargedau gwerthiant a refeniw uchelgeisiol ac yn y swydd hon byddwch yn cynorthwyo i greu deunydd cyffrous ac i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn y "Prif Dymor" a hefyd yn y misoedd cyn ac ar ôl hwnnw er mwyn cyrraedd y targedau hynny.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau'r Swydd

- Creu negeseuon brand a chenadwriau allweddol at ddibenion busnes-i'r-cwsmer a busnes-i-fusnes fel ei gilydd
- Datblygu arddull a iaith y brand
- Llunio a lledaenu datganiadau uchel eu heffaith i'r wasg genedlaethol, ranbarthol a lleol.
- Sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau'n gyffredinol ac mewn sectorau penodol (gan gynnwys y selogion, technegol, ffordd o fyw, twristiaeth a busnes)
- Cydweithio â'r Arweinydd Marchnata i sicrhau'r defnydd gorau o'r holl ddeunydd cysylltiadau cyhoeddus ar y cyfryngau'n gyffredinol ac ar y cyfryngau cymdeithasol
- Datblygu cysylltiadau â phenaethiaid adran, aelodau staff a gwirfoddolwyr i gasglu gwybodaeth ynghylch Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri er mwyn creu blogiau, bwletinâu, cylchgronau a deunyddiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o gyfathrebu mewnol ac allanol
- Rheoli'r Rhestr Gyswilt Golygyddion Cysylltiadau Cyhoeddus a'r berthynas â golygyddion
- Rheoli toriadau o'r wasg all-lein ac ar-lein ac archif y cyfryngau

Addysg a Phrofiad

- O leiaf dwy flynedd o brofiad o waith cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu
- Rhwydwaith cryf o gysylltiadau ym meysydd ffordd o fyw cwsmeriaid a thwristiaeth a chyhoeddiadau'r diwydiant (gan gynnwys cyfryngau print, digidol a darlledu)
- Y gallu i weithio o fewn amserlenni tynn ac i gyfathrebu'n ymatebol
- Profiad o redeg sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Sylw rhagorol i fanylder a cheinder unrhyw waith a wneir

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac mewn ysgrifen

Galluoedd Allweddol

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn ddymunol
- Y gallu i feithrin cysylltiadau cadarnhaol â'r cyfryngau
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm ond â'r hyder hefyd i weithio'n annibynnol
- Y gallu i feddwl yn annibynnol ynghyd â'r parodrydd i adeiladu cysylltiadau mewnol ac allanol

“Dyma fyddwn ni’n ei gynnig i chi...”

- Cyflog - £24,000 - £26,000 y flwyddyn yn dibynnu ar brofiad
- Cynllun pensiwn atyniadol
- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa
- Lwfans teithio a threuliau
- Teithio am ddim i chi a’ch teulu ar Reilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, a theithio rhatach ar ôl chwe mis ar wasanaethau Rheilffyrdd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 15 Tachwedd 2019

Os ydych yn credu eich bod yn bodloni pob un o’r uchod, byddem ninnau’n fodlon iawn eich cyfarfod chi! Ond yn gyntaf, rhaid i ni weld eich gallu chi ar waith.

Ynghyd â’ch llythyr cais a’ch CV, cyflwynwch, os gwelwch yn dda, ddatganiad i’r wasg ynghylch Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri y gellid ei anfon at gyhoeddiad twristaidd.

Anfonwch yr uchod at ein Rheolwr Masnachol – Clare Britton yn applications@ffwhr.com

Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yn ymrwymedig i gynyddu amrywiaeth ymhlith ein gweithlu ac i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol ar gyfer pawb.